OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 3345 (Cy.306)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *12 Rhagfyr 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 43(4B)(b), 44(9) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "cod cyfathrebu electronig" yr ystyr sydd i "*electronic communications code*" yn adran 106(1) o Ddeddf Cyfathrebu 2003;

mae "cyfarpar cyfathrebu electronig" ("*electronic communications apparatus*") yn cynnwys —

(a) cyfarpar o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 1(1) o'r cod cyfathrebu electronig;

(b) strwythurau fel cytiau neu adeiladau eraill o ran eu natur (gan gynnwys strwythurau nad ydynt ond yn rhan o adeilad) a ddefnyddir, neu a ddyluniwyd i'w defnyddio ddim ond i gadw cyfarpar sy'n dod o fewn y disgrifiad ym mharagraff (a); ac

(c) unrhyw gyfarpar atodol a feddiennir yn unig at ddibenion person a drwyddedir o dan adran 1 o Ddeddf Telegraffiaeth Radio 1949(**2**), a dim ond ar gyfer hynny, neu berson y

(**1**) 1988 p.41. Cafodd y pwerau hyn eu datganoli, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1999 yn Atodlen 1.

(**2**) 1949 p.54.

rhoddwyd iddo fynediad sbectrwm cydnabyddedig o dan adran 159 o Ddeddf Cyfathrebu 2003(**3**);

ystyr "Deddf 1988" ("*the 1988 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

ystyr "hereditament a eithrir" ("*excepted hereditament*") yw hereditament

(a) a ddefnyddir ddim ond ar gyfer arddangos hysbysebion, parcio cerbydau modur, gweithfeydd trin carthion neu gyfarpar cyfathrebu electronig,

(b) sy'n gwt ar y traeth neu'n swyddfa bost,

(c) y mae un neu fwy o baragraffau (a) i (c) o adran 47(2) o Ddeddf 1988 yn gymwys iddo,

(ch) sy'n hereditament a eithrir fel a ddiffinnir yn adran 47(9) o Ddeddf 1988,

(d) sy'n hereditament y Goron fel a ddiffinnir yn adran 65A(4) o Ddeddf 1988, neu

(dd) sydd yn, neu fod rhan ohono yn, adeilad neu ran hunangynhwysol o adeilad fel a ddisgrifir ym mharagraffau (a) a (b) o adran 66(2B) o Ddeddf 1988;

ystyr "swyddfa bost" yw swyddfa bost gyhoeddus o fewn yr ystyr a roddir i "*post office*"gan adran 42(3) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000(**4**).

### Mwyafswm gwerth ardrethol ar gyfer rhyddhad ardrethi

**3.** At ddibenion adran 43(4B)(b)(i) o Ddeddf 1988, y swm a ragnodir ar gyfer hereditament yw £12,000.

### Amodau rhyddhad

**4.** At ddibenion adran 43(4B)(b)(ii) o Ddeddf 1988, o ran hereditamentau â gwerth ardrethol o £5,000 neu lai, yr amodau i'w bodloni yw—

(a) nad yw'r hereditament yn hereditament a eithrir, a

(b) mae'r heraditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl.

**5.** At ddibenion adran 43(4B)(b)(ii) o Ddeddf 1988, o ran hereditamentau â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai, yr amod i'w fodloni yw bod yr hereditament, neu fod rhan o hereditament, yn cael ei ddefnyddio fel swyddfa bost.

### Swm o E

**6.** Y swm o E a ragnodir at ddibenion adran 44(9) o Ddeddf 1988 —

(a) os £2,000 neu lai yw gwerth ardrethol yr hereditament a bod yr amodau yn erthygl 4 wedi'u fodloni, yw 2;

(b) os yw gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy nag £2,000 ond heb fod yn fwy na £5,000 a bod yr amodau yn erthygl 4 wedi'u bodloni, yw 1.333;

(c) os £9,000 neu lai yw gwerth ardrethol yr hereditament a bod yr amod yn erthygl 5 wedi'i fodloni, yw 500,000;

(ch) os yw gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy nag £9,000 ond heb fod yn fwy nag £12,000 a bod yr amod yn erthygl 5 wedi'i fodloni, yw 2.

### Dirymu ac arbedion

**7.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), dirymir y gorchmynion canlynol—

(**3**) 2003 p.21.
(**4**) 2000 p.26.

(a) Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Aneddiadau Gwledig) (Cymru) 1998(**5**); a

(b) Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi Gwledig) (Cymru) 2002(**6**).

(2) Mae'r gorchmynion a bennir ym mharagraff (1) i barhau mewn grym fel y maent yn gymwys i unrhyw flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007 neu cyn hynny.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**).

*D. Elis-Thomas*
12 Rhagfyr 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) O.S. 1998/2963.
(**6**) O.S. 2002/331 (Cy.44).
(**7**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2007 ac mae'n gymwys i Gymru. Mae'n darparu ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru yn sgil dod i rym adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r adran honno'n gwneud diwygiadau i adran 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") (fel bod y cynllun rhyddhad ardrethi gwledig yng Nghymru'n dod i ben ond yn cael ei arbed gan y Gorchymyn hwn mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007 neu cyn hynny).

Mae erthygl 2 yn diffinio hereditamentau sy'n cael eu heithrio o'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi mwyafswm gwerth ardrethol o £12,000 ar gyfer hereditamentau a allai fod yn gymwys i ryddhad.

Mae erthyglau 4 a 5 yn rhagnodi amodau cymhwystra.

Mae erthygl 6 yn rhagnodi'r swm o E yn y fformiwla a geir yn adran 43(4A)(b) o Ddeddf 1988. Mae'r fformiwla honno'n darparu'r mecanwaith ar gyfer cyfrifo'r swm o ardrethi sy'n daladwy o ran hereditamentau penodol.

Effaith erthyglau 4 a 6 yw (a) rhoi rhyddhad ardrethi gorfodol o 50% i hereditamentau sydd â gwerth ardrethol o £2,000 neu lai nad ydynt yn hereditamentau a eithrir fel a ddiffinnir yn erthygl 2 ac sy'n cael eu meddiannu'n gyfangwbl; a (b) rhoi rhyddhad ardrethi gorfodol o 25% i hereditamentau sydd â gwerth ardrethol o fwy nag £2,000 ond o ddim mwy na £5,000 nad ydynt yn hereditamentau a eithrir fel a ddiffinnir yn erthygl 2 ac sy'n cael eu meddiannu'n gyfangwbl.

Effaith erthyglau 5 a 6 yw rhoi rhyddhad gorfodol o 100% i swyddfeydd post â gwerth ardrethol o £9,000 neu lai, a rhoi rhyddhad gorfodol o 50% i swyddfeydd post â gwerth ardrethol o fwy nag £9,000 ond o ddim mwy nag £12,000.